Y llawlyfr colli swydd

Camau i'ch helpu i ymdopi â cholli eich swydd

the Money Advice Service

- Eich hawliau
- Gwneud y gorau o'ch arian
- Symud ymlaen

Mae **Gwasanaeth Cynghori Ariannol** yn annibynnol. Sefydlwyd gan y llywodraeth i helpu pobl wneud y mwyaf o'u harian trwy gynnig cyngor diduedd a di-dâl. Yn ogystal â chyngor ar ddiswyddiad, rydyn ni'n cynnig gwybodaeth ar ystod eang o themâu ariannol eraill.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i'ch helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ac i gynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

moneyadviceservice.org.uk/cy

Cyngor di-duedd am ddim

- ar-lein
- dros y ffôn
- wyneb yn wyneb

Yma i'ch helpu

Mae'r canllaw hwn yn addas i chi os oes bygythiad i'ch swydd neu os ydych newydd golli eich swydd. Bydd yn esbonio eich hawliau ac yn dangos i chi y camau y gallwch eu cymryd i ddiogelu eich arian.

Cynnwys

Y pethau cyntaf i'w gwneud	2
Dewisiadau eraill i golli swydd	4
Gwybod eich hawliau colli swydd	8
Tâl diswyddiad	13
Penderfynu beth i'w wneud am eich pensiwn	17
Gadael gwaith	19
Hawliadau a budd-daliadau'r wladwriaeth	21
Gwneud y gorau o'ch tâl colli swydd	27
Sut i ymdopi ar lai o arian	31
Cael help gyda benthyciadau a dyledion	35
Diogelu eich cartref	37
Gweithio ar eich chwiliad gwaith	40
Cysylltiadau defnyddiol	46

Y pethau cyntaf i'w gwneud

Eich cynllun gweithredu

1 **Gallwch gael gwybodaeth am ddewisiadau eraill i golli swydd**
Os ydych yn credu y gallai eich swydd fod mewn perygl, dylech fod yn ymwybodol o'r dewisiadau eraill i golli swydd a'ch hawliau chi os bydd eich cyflogwr yn awgrymu gweithio llai o oriau, rhyddhau neu wneud newidiadau i'ch cytundeb – gweler tudalennau 4 i 7.

Ewch i **moneyadviceservice.org.uk/gweithio-llai-o-oriau**

2 **Gwybod eich hawliau colli swydd**
Os ydych yn wynebu colli eich swydd, gwnewch yn siŵr bod eich diswyddiad yn deg, a oes gennych hawl i dâl colli swydd a gwybod pa hawliau eraill sydd gennych - gweler tudalennau 8 i 15.

Ewch i **moneyadviceservice.org.uk/dileu-swydd**

3 **Gwneud y gorau o'ch arian**
Gwnewch y gorau o'ch tâl colli swydd, adolygwch eich cyllideb, edrychwch i weld pa yswiriant a buddiannau y gallech eu hawlio a threfnwch arian eich cartref – gweler tudalennau 16 i 34.

Ewch i **moneyadviceservice.org.uk/adolygu-cyllideb**

4 **Cael help gyda benthyciadau a dyledion**
Gallwch gael cyngor diduedd am ddim os ydych yn cael anhawster gyda'ch dyledion ac yn poeni pa filiau i'w blaenoriaethu a sut i ddiogelu eich cartref – gweler tudalennau 35 i 39.

Ewch i **moneyadviceservice.org.uk/dyled-os-byddwch-yn-colli-swydd**

5 **Gweithio ar eich chwiliad gwaith**
Diweddaru eich CV a'ch techneg cyfweliad.
Dylech ystyried diweddaru eich sgiliau a dysgu rhai newydd, neu ddechrau eich busnes eich hun hyd yn oed – gweler tudalennau 40 i 45.

Ewch i **moneyadviceservice.org.uk/dod-o-hyd-i-swydd**

Trafod y mater

Os oes gennych bartner, teulu neu ffrind y gallwch ymddiried ynddynt, trafodwch eich pryderon am eich swydd gyda hwy. Efallai na fyddwch yn datrys y broblem ond dylai ymddangos yn llai llethol i chi.

Ac os yw pryderon am eich swydd yn rhoi straen ar berthnasau, ffoniwch linell gymorth Relate ar 0300 100 1234.

Dewisiadau eraill i golli swydd

Mae'n anodd parhau i weithio fel arfer pan fydd sibrydion am ddiswyddo o amgylch. Efallai y byddwch yn penderfynu eich bod eisiau dechrau chwilio am swydd arall a gadael cyn i unrhyw gyhoeddiad gael ei wneud ar ddiswyddiadau.

Cyn gwneud hyn, gwnewch yn siŵr na fyddwch yn colli allan ar hawliau colli swydd gwerthfawr - gweler tudalen 8.

Os yw'r busnes yr ydych yn gweithio iddo yn profi dirywiad dros dro, efallai y bydd eich cyflogwr yn cynnig dewisiadau eraill i golli swydd.

Er enghraifft, gallant ofyn i chi:

- leihau nifer y dyddiau neu'r oriau yr ydych yn eu gweithio drwy'r wythnos (a elwir yn gweithio llai o oriau)
- gymryd dyddiau cyfan i ffwrdd (a elwir yn rhyddhau)
- wneud swydd gwbl wahanol
- newid eich cytundeb.

Beth bynnag yw'r cynnig, mae'n werth ystyried a chymryd cyngor gan eich undeb llafur neu'ch cynrychiolydd yn y gwaith, os oes gennych un, cyn gwneud eich penderfyniad.

Os nad ydych yn aelod o undeb llafur neu gymdeithas staff, gallech drafod eich dewisiadau gyda chynghorydd yn eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol.

Beth i'w wneud am ostyngiad incwm

Cael gwaith arall. Ar yr amod bod eich cytundeb yn caniatáu hynny a bod eich cyflogwr yn cytuno, efallai y gallwch gymryd swydd arall tra byddwch yn gweithio llai o oriau neu wedi'ch rhyddhau. Ond os byddwch yn gwneud hyn ni allwch gael tâl gwarantedig statudol hefyd – gweler tudalen 5.

Hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth. Efallai y gallwch hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol – a budd-daliadau eraill y wladwriaeth – os ydych yn gweithio llai o oriau neu wedi'ch rhyddhau. Dylech gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith (Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon) i gael cyngor pellach – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Gweithio llai o oriau

Mae hyn yn golygu gweithio llai o oriau bob dydd neu lai o ddyddiau bob wythnos am lai o gyflog. Edrychwch i weld a yw eich cytundeb cyflogaeth eisoes yn caniatáu ar gyfer hyn.

Os nad yw, bydd y gymdeithas staff neu eich undeb llafur, os oes gennych un, fel arfer yn gorfod cytuno ar y cytundeb.

Os nad oes gennych gymdeithas staff neu undeb llafur, chi fydd yn penderfynu derbyn hyn ai peidio, oni fydd eich cytundeb yn dweud bod yn rhaid i chi.

Efallai y bydd gennych hawl hefyd i daliad gwarantedig, ar yr amod nad ydych yn cytuno i newid eich oriau gwaith yn barhaol. Dylech drafod hyn gyda'ch cyflogwr.

Rhyddhau

Mae hyn yn golygu y gofynnir i chi beidio mynd i'r gwaith a bydd eich cyflog yn cael ei leihau fel arfer. Fodd bynnag, rydych yn parhau i fod yn gyflogedig. Bydd eich cyflogwr ond yn gallu gofyn i chi wneud hyn os bydd eich cytundeb cyflogaeth yn caniatáu hynny, neu eich bod yn cytuno i newid eich cytundeb.

Tâl gwarantedig

Os ydych yn gweithio llai o oriau neu'n cael eich rhyddhau, gallai fod gennych hawl i 'dâl gwarantedig statudol.' Uchafswm y tâl hwn yw £28 y dydd hyd at uchafswm o £140 am bum diwrnod mewn unrhyw gyfnod o dri mis. Mae'r swm yn cael ei leihau pro rata os ydych yn gweithio'n rhan amser. Os bydd eich cytundeb yn caniatáu ar gyfer cyfnodau rhyddhau di-dâl efallai na fyddwch yn cael unrhyw dâl gwarantedig.

Am ba hyd y gall hyn barhau?

Nid oes terfyn ar y cyfnod y gallwch gael eich rhyddhau neu weithio llai o oriau. Fodd bynnag, os ydych wedi'ch rhyddhau am bedair wythnos yn olynol - neu chwe wythnos heb fod yn olynol mewn cyfnod o 13 wythnos - gallech fod â hawl i hawlio tâl colli swydd gweler tudalen 13.

Newidiadau i'ch cytundeb

Efallai y bydd eich cyflogwr yn dymuno newid telerau eich cytundeb – er enghraifft, lleihau eich cyflog neu eich newid i gyflogaeth rhan amser.
Ni allant wneud hyn heb eich caniatâd chi oni fydd eich cytundeb yn dweud y gallant wneud hynny.

Dylech drafod eich opsiynau gyda'ch undeb llafur neu gynrychiolydd staff, eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol neu Acas (yr Asiantaeth Cysylltiadau Llafur os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon).

Gwaith arall

Cyn diswyddo, dylai eich cyflogwr geisio cynnig swydd addas arall i chi, neu ganiatáu i chi wneud cais am swyddi eraill, hyd yn oed os nad yw'r rolau hyn yn addas.

Os cynigir swydd arall addas i chi, gallwch roi cynnig ar y swydd am gyfnod prawf. Bydd hyn yn dibynnu a fydd unrhyw wahaniaethau rhwng eich hen swydd a'ch swydd newydd. Os bydd y cyfnod prawf yn llwyddiannus, bydd eich cyflogaeth yn parhau, ac ni fydd gennych hawl i unrhyw dâl colli gwaith statudol.

Os byddwch yn penderfynu bod y swydd yn anaddas, ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawliau colli swydd. Os byddwch yn gwrthod swydd arall addas heb reswm, gallech golli eich hawl i dâl colli swydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Acas. Mae'n sefydliad sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ac sy'n darparu gwybodaeth a chyngor diduedd am hawliau cyflogeion. Maent hefyd yn datrys anghydfodau rhwng cyflogeion a'u cyflogwyr. Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Asiantaeth Cysylltiadau Llafur. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Ymddeoliad cynnar fel dewis arall i golli swydd

Mae derbyn ymddeoliad cynnar yn wahanol iawn i golli eich swydd, nid oes gennych unrhyw hawliau colli swydd ac ni fyddwch yn derbyn unrhyw dâl colli swydd.

Os cynigir ymddeoliad cynnar i chi a'ch bod yn penderfynu ei gymryd, rydych yn debygol o dderbyn pensiwn llai nag y byddech ar ôl gweithio hyd at eich oedran ymddeol arferol.

Bydd y graddau y bydd hyn yn effeithio ar eich pensiwn yn dibynnu ar delerau eich pecyn ymddeol yn gynnar a'r math o gynllun pensiwn sydd gennych.

Mae pecynnau ymddeol yn gynnar yn aml yn cynnwys cymhellion sy'n gwella'r pensiwn a gewch, er enghraifft:

- cyfandaliad i mewn i'ch cronfa bensiwn i gynyddu ei werth os ydych mewn cynllun cyfraniadau diffiniedig, neu
- mae'r buddiannau pensiwn yn cael eu cyfrifo fel pe byddech wedi gweithio i'ch oedran ymddeol arferol os ydych mewn cynllun buddiannau diffiniedig.

Gwnewch ymholiadau i fanteision ac anfanteision ymddeol yn gynnar.

- Chwiliwch am *'Ymddeoliad cynnar'* ar **moneyadviceservice.org.uk/cy**
- Gallwch hefyd archebu ein llyfryn am ddim *'Eich pensiwn: mae'n bryd dewis'* yn **moneyadviceservice.org.uk/canllawiau-printiedig-am-ddim**

Gwybod eich hawliau colli swydd

Er bod colli swydd yn fath o ddiswyddiad, pan fyddwch yn colli eich swydd nid ydych wedi gwneud unrhyw beth o'i le ac nid yw unrhyw un yn cwestiynu eich gallu i wneud eich swydd.

Y rhesymau cyffredin pam y gallai eich cyflogwr eich diswyddo yw:

- mae angen iddynt leihau eu costau
- mae angen iddynt gau
- maent yn adleoli
- nid oes angen y gwaith yr ydych yn ei wneud mwyach.

Mae'r rhain yn hysbys fel rhesymau teg dros ddiswyddo. Gall eich cyflogwr eich diswyddo, ar yr amod eu bod yn dilyn proses ddethol deg hefyd.

Os na fydd eich cyflogwr yn dilyn proses deg ar gyfer diswyddo neu os nad oes rheswm gwirioneddol dros ddileu'r swydd, gallech wneud hawliad am ddiswyddiad annheg i dribiwnlys cyflogaeth os ydych wedi gweithio i'ch cyflogwr am ddwy flynedd neu fwy. Gweler tudalen 10.

Mewn rhai achosion, er enghraifft gwahaniaethu neu pan fyddwch yn credu eich bod wedi'ch diswyddo am rywbeth a wnaethoch, megis codi pryderon am hawliau cyflogaeth neu chwythu'r chwiban, gallwch wneud hawliad waeth am ba hyd yr ydych wedi gweithio i'ch cyflogwr. Os ydych yn credu eich bod wedi colli eich swydd am unrhyw rai o'r rhesymau hyn, dylech ofyn am gyngor cyn gynted â phosibl. Gweler tudalen 11.

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr drafod beth fydd yn digwydd gyda phawb perthnasol. Dylent ddweud wrthych pam eu bod yn cynnig diswyddiadau a sut y byddant yn effeithio ar bobl. I gael rhagor o fanylion, gweler **gov.uk/redundant-your-rights/consultation**

Apelio yn erbyn penderfyniad colli swydd

Cam 1 – Apelio yn ysgrifenedig i'ch cyflogwr.

Os ydych yn credu bod y penderfyniad i ddileu swydd yn annheg, esboniwch pam eich bod yn credu eich bod wedi'ch dewis yn annheg a'r hyn yr ydych eisiau i'ch cyflogwr ei wneud i unioni'r sefyllfa. Os na fydd hyn yn datrys y broblem, gallwch wneud hawliad i dribiwnlys cyflogaeth.

Cam 2 – Cymodi cynnar.
Cyn y gallwch wneud hawliad tribiwnlys, mae'n rhaid i chi hysbysu Acas yn **acas.org.uk/earlyconciliation**. Bydd Acas yn cynnig cysylltu â'ch cyflogwr i geisio datrys yr achos. Nid oes rheidrwydd arnoch chi na'ch cyflogwr i gytuno i hyn.

Cam 3 – Ewch â'ch cyflogwr i dribiwnlys cyflogaeth.

Ar ôl i chi dderbyn tystysgrif cymodi cynnar gan Acas, gallwch wneud hawliad i dribiwnlys cyflogaeth.

Mae'n rhaid eich bod wedi'ch cyflogi am o leiaf ddwy flynedd – oni bai eich bod yn gwneud hawliad am wahaniaethu a/neu ddiswyddiad awtomatig annheg.

Ar hyn o bryd, nid oes ffioedd am wneud cais i dribiwnlys cyflogaeth.

Pwynt allweddol

Os ydych yn credu eich bod wedi'ch diswyddo yn annheg, gofynnwch am gyngor cyn gynted â phosibl gan eich undeb llafur neu gynrychiolydd cyflogeion, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, Acas neu, yng Ngogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Cysylltiadau Llafur – *gweler Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46. Mae yna gyfyngiad amser caeth ar gyfer gwneud hawliad.

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae'n rhaid i chi hysbysu Acas cyn gwneud hawliad i dribiwnlys cyflogaeth.

A yw eich diswyddiad yn deg?

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr sicrhau eu bod yn eich diswyddo am reswm teg, nid oherwydd pwy ydych chi neu rywbeth rydych wedi'i wneud, megis codi pryderon am y gweithle. Mae'n rhaid iddynt ddilyn proses deg pan fyddant yn dewis pwy sydd yn colli swyddi.

A yw'r broses diswyddo yn deg?

Mae yna brosesau gwahanol ar gyfer diswyddo'n deg. Bydd y broses y bydd eich cyflogwr yn ei dilyn yn dibynnu ar:

- faint o bobl sy'n gweithio i'ch cyflogwr
- nifer y swyddi y maent yn bwriadu eu dileu
- a oes gan y cwmni bolisi diswyddo
- unrhyw gytundeb sydd mewn grym gydag undeb llafur.

Dylai eich cyflogwr bob amser:

- ymgynghori gyda chi i weld a oes ffyrdd o osgoi eich diswyddo
- caniatáu i gydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur fynd gyda chi i unrhyw gyfarfodydd
- ysgrifennu atoch ynglŷn â'ch hawl i gael tâl colli swydd statudol (gweler tudalen 13)
- rhoi cyfle i chi apelio yn erbyn y penderfyniad
- ystyried a oes unrhyw swyddi eraill addas (gweler tudalen 6).

Colli swydd a gwahaniaethu

Os ydych yn credu mai'r rheswm gwirioneddol pam eich bod yn cael eich diswyddo yw am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas neu bartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gredo
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol,

gallech wneud hawliad ar sail gwahaniaethu i dribiwnlys cyflogaeth waeth pa mor hir yr ydych wedi'ch cyflogi. Efallai y gallwch hefyd wneud hawliad am ddiswyddo annheg os ydych wedi gweithio i'ch cyflogwr am ddwy flynedd neu fwy.

Diswyddo annheg awtomatig

Mae'n anghyfreithlon i'ch cyflogwr eich diswyddo am resymau penodol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- beichiogrwydd neu famolaeth
- rhesymau teuluol, yn cynnwys cymryd absenoldeb rhiant neu i ofalu am ddibynyddion
- perthyn i undeb llafur neu weithredu fel cynrychiolydd staff
- chwythu'r chwiban ar arfer gwael neu faterion iechyd a diogelwch
- gweithio'n rhan amser neu ar gytundeb tymor penodol
- oherwydd eich bod wedi gofyn am oriau gweithio hyblyg
- oherwydd eich bod wedi mynegi pryderon ynglŷn â hawliau cyflogaeth statudol, yn cynnwys problemau gyda chyflog, oriau gwaith neu wyliau blynyddol.

Os ydych yn credu y gallai hyn fod y gwir reswm dros golli eich swydd, efallai y gallwch honni bod eich diswyddiad yn annheg yn awtomatig. Gallwch wneud hawliad waeth pa mor hir yr ydych wedi gweithio i'ch cyflogwr.

Staff i mewn, staff allan

Mae gan eich cyflogwr hawl cyfreithiol i gyflogi staff newydd, hyd yn oed os ydynt yn diswyddo pobl. Efallai y byddant yn cyflogi rhywun i wneud swydd wahanol lle'r ydych chi'n gweithio, neu i wneud eich swydd mewn lleoliad gwahanol. Os ydych yn credu y dylech fod wedi cael cynnig swydd yn y strwythur newydd, neu os ydych yn credu eich bod wedi'ch disodli yn annheg, darllenwch eich cytundeb cyflogaeth. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch am gyngor gan gynrychiolydd undeb, Acas (yr Asiantaeth Cysylltiadau Llafur yng Ngogledd Iwerddon) neu eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol.

Ymgynghoriad colli swydd

Y broses a'r amserlen colli swydd

Bydd y broses y mae'n rhaid i'ch cyflogwr ei dilyn yn dibynnu ar nifer y swyddi y bwriedir eu dileu. Gweler y tabl isod.

Y nifer o gyflogeion fydd yn colli eu swyddi	Y math o ymgynghoriad sydd ei angen	Amseriad yr ymgynghoriad
Llai nac 20 o gyflogeion	Mae angen i'ch cyflogwr ymgynghori â chi **yn unigol yn unig**.	O fewn amser rhesymol.
20–99 o gyflogeion	Mae'n rhaid i'ch cyflogwr gynnal **ymgynghoriad ar y cyd**. Mae hyn yn golygu ymgynghori â'ch cynrychiolydd undeb os oes un neu, os nad oes gennych un, gyda'ch cynrychiolydd/cynrychiolwyr cyflogeion etholedig. Mae'n arfer da iddynt ymgynghori â phob un ohonoch yn unigol hefyd. Os bydd y cyflogeion yn penderfynu peidio ethol cynrychiolydd, yna cynhelir ymgynghoriad gydag unigolion yn unig.	Isafswm o 30 diwrnod cyn dileu'r swydd gyntaf.
100+ o gyflogeion	Mae'n rhaid i'ch cyflogwr gynnal **ymgynghoriad ar y cyd**. Mae hyn yn golygu ymgynghori â'ch cynrychiolydd undeb os oes un neu, os nad oes gennych un, gyda'ch cynrychiolydd/cynrychiolwyr cyflogeion etholedig Mae'n arfer da iddynt ymgynghori â phob un ohonoch yn unigol hefyd. Os bydd y cyflogeion yn penderfynu peidio ethol cynrychiolydd, yna cynhelir ymgynghoriad gydag unigolion yn unig.	Isafswm o 45 diwrnod cyn y diswyddiad cyntaf.

Ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben, mae'n rhaid eich bod wedi derbyn y cyfnod rhybudd statudol o leiaf, os bydd eich swydd yn cael ei golli. Mae hyn yn amrywio o un i 12 wythnos, yn unol â'r cyfnod o amser yr ydych wedi'ch cyflogi. Fodd bynnag, efallai y bydd eich cyfnod rhybudd yn hwy, yn dibynnu ar beth sydd yn eich cytundeb cyflogaeth. Ar ôl y pwynt hwn, bydd eich swydd yn dod i ben.

Tâl dileu swydd

Efallai y bydd gennych hawl i gael tâl dileu swydd statudol – cyfandaliad i'ch digolledu am golli eich swydd. Dyma'r isafswm cyfreithiol y mae'n rhaid i'ch cyflogwr ei dalu. Gall rhai cyflogwyr gynnig pecynnau sy'n fwy hael.

Pwy sy'n cael tâl dileu swydd statudol?

Fe allech chi fod â'r hawl i dâl dileu swydd statudol os ydych chi wedi gweithio'n barhaus i'ch cyflogwr am o leiaf ddwy flynedd. Os byddwch yn gweithio ar delerau achlysurol, neu eich bod yn weithiwr asiantaeth neu dros dro, mae'n debyg na fyddwch yn gymwys i gael tâl dileu swydd.

Os ydych ar gontract dim oriau h.y. os ydych 'ar alwad' heb leiafswm penodedig o oriau nag amserlen wedi ei diffinio, mae hyn yn niwlog. Gofynnwch am gyngor gan Acas (neu'r Asiantaeth Cysylltiadau Gwaith yng Ngogledd Iwerddon) neu'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Pwynt allweddol

Fe allech chi fod â'r hawl i dâl dileu swydd statudol os ydych chi wedi gweithio'n barhaus i'ch cyflogwr am o leiaf ddwy flynedd.

Faint fyddwch chi'n ei gael?

Bydd faint o dâl dileu swydd statudol y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar ba mor hir yr ydych wedi gweithio i'ch cyflogwr, beth yw eich oedran, a faint o gyflog yr ydych yn ei gael.

Yn ôl y gyfraith mae gennych hawl i:

- hanner wythnos o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth tra roeddech dan 22 oed
- un wythnos o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth tra'r oeddech chi rhwng 22 a 41 oed, ac
- wythnos a hanner o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth ar ôl eich pen-blwydd yn 41 oed.

Mae'r tâl dileu swydd statudol uchaf y gallwch ei dderbyn yn 2018-19 wedi'i seilio ar uchafswm o 20 mlynedd o wasanaeth a thâl wythnosol o hyd at £508 (yng **Ngogledd Iwerddon £530***). Mae cap ar y swm uchaf o dâl dileu swydd y gallwch ei dderbyn ar £15,240 (yng **Ngogledd Iwerddon £15,900***) hyd yn oed os yw'ch union enillion yn uwch neu'ch hyd o wasanaeth yn hwy na hyn.

* gallai fod yn amodol ar newid

Beth os bydd eich cyflogwr wedi rhoi'r gorau i fasnachu?

Os yw busnes eich cyflogwr wedi methu neu os na allant eich talu, bydd Swyddfa Taliadau Colli Swydd y llywodraeth yn talu'r swm statudol i chi. Dylai'r cwmni ansolfedd sy'n delio â'ch cyflogwr roi ffurflen RP1 i chi wneud hawliad.

Mynnwch gyngor gan y Gwasanaeth Taliadau Colli Swydd yn Acas: 0845 145 0004

I ganfod a oes gennych hawl i dâl colli swydd statudol a faint, defnyddiwch y gyfrifiannell tâl colli swydd **gov.uk/calculate-your-redundancy-pay**

Enghraifft

Mae Michelle yn 48 oed. Mae wedi gweithio i'w chyflogwr am 22 o flynyddoedd ac mae'n ennill £700 yr wythnos. Mae ganddi hawl i dâl colli swydd statudol yn seiliedig ar yr uchafswm o £508 yr wythnos am 20 mlynedd o wasanaeth. Bydd Michelle yn derbyn £11,938 sydd wedi'i gyfrifo fel â ganlyn:

Cam 1
1.5 wythnos x 7 mlynedd o wasanaeth pan oedd yn 41 oed a throsodd

= 10.5 wythnos

Cam 2
1 wythnos x 13 mlynedd o wasanaeth pan oedd rhwng 22 a 41

= 13 wythnos

Cam 3
10.5 wythnos + 13 wythnos

= 23.5 wythnos x £508

Cyfanswm

£11,938 o dâl colli swydd

Treth a thâl colli swydd

Nid ydych yn talu treth ar unrhyw dâl colli swydd hyd at £30,000.

Os byddwch yn derbyn mwy na £30,000, bydd rhaid i chi dalu treth ar eich cyfradd uchaf ar y swm dros £30,000.

Os byddwch yn derbyn unrhyw fuddiannau nad ydynt yn arian fel rhan o'ch pecyn colli swydd, megis car cwmni neu gyfrifiadur, bydd hyn yn cael ei gyfrifo fel gwerth arian parod ac yn cael ei ychwanegu at eich tâl colli swydd at ddibenion treth.

Felly, er enghraifft, os byddwch yn derbyn car cwmni sy'n werth £10,000 a'ch bod yn derbyn tâl colli swydd o £25,000, bydd eich pecyn diswyddo yn werth £35,000 at ddibenion treth. Bydd rhaid i chi dalu treth ar y £5,000 sydd dros y terfyn di-dreth o £30,000.

Dylech neilltuo digon o arian i dalu unrhyw dreth ychwanegol

Pan fyddwch yn cael eich tâl colli swydd, fel arfer bydd eich cyflogwr eisoes wedi didynnu treth ohono. Ond, oherwydd bod eich treth yn cael ei chyfrifo'n flynyddol mae'n gyffredin iawn y bydd gormod neu ddim digon o dreth wedi'i didynnu.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei dalu, felly mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod wedi talu'r swm cywir ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Os ydych wedi talu gormod o dreth, bydd angen i chi hawlio ad-daliad. Os nad ydych wedi talu digon, bydd rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth.

Gofynnwch am help a chyngor gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Dylech gofio y gallai maint y taliad olygu y byddwch yn dod yn drethdalwr cyfradd uwch neu ychwanegol am y flwyddyn, hyd yn oed os ydych yn drethdalwr y gyfradd sylfaenol fel arfer.

Taliadau eraill pan fyddwch yn gadael

Gallwch dderbyn taliadau cyfandaliad eraill yn eich pecyn tâl olaf pan fydd eich swydd yn cael ei dileu. Os yw'r rhain yn ddyledus dan eich contract gwaith (yn hytrach nag fel iawndal am golli eich swydd), byddant yn cael eu trethu yn yr un ffordd â'ch tâl arferol.

Gall taliadau gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

	Sut mae hyn yn gweithio?	Sut mae'n cael ei drethu?
Cyflogau yn ddyledus a thaliadau bonws	Dyma eich tâl hyd at y diwrnod pan fydd eich contract yn dod i ben ac unrhyw daliadau bonws sy'n ddyledus i chi dan eich contract cyflogaeth.	Bydd cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol wedi cael eu didynnu fel arfer o'r taliadau hyn cyn i chi eu cael.
Tâl yn lle rhybudd	Telir hwn pan na fydd eich cyflogwr am ichi weithio eich cyfnod rhybudd ac mae'n cynnig cyfandaliad ichi yn lle hynny.	Mae tâl yn lle rhybudd yn cyfrif fel tâl trethadwy ac felly bydd yn rhaid tynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
Tâl gwyliau dyledus	Gall eich cyflogwr ofyn i chi gymryd peth gwyliau yn ystod eich cyfnod rhybudd dileu swydd. Dim ond os bydd eich contract cyflogaeth yn dweud bod rhaid i chi y bydd raid i chi wneud hyn. Fel arall, chi sydd i benderfynu. Gallech benderfynu bod yr arian yn fwy defnyddiol i chi os ydych ar fin mynd yn ddi-waith.	Bydd cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol wedi cael eu didynnu fel arfer o'r taliadau hyn cyn i chi eu cael.

Penderfynu beth i'w wneud ynglŷn â'ch pensiwn

Os ydych yn rhan o bensiwn gweithle, mae angen i chi benderfynu beth i'w wneud gyda'ch pensiwn ar ôl i chi adael. Mae'r dewisiadau yn dibynnu ar y math o gynllun sy'n weithredol.

I ganfod pa fath o gynllun pensiwn yr ydych yn rhan ohono a'r hawliau sydd gennych, cysylltwch â'ch adran pensiynau neu adnoddau dynol yn y gwaith. I gael gwybodaeth gyffredinol am bensiynau, yn cynnwys diffiniadau o'r gwahanol fathau o gynlluniau pensiwn, gweler:
moneyadviceservice.org.uk/pensiynau-ac-ymddeoliad
neu wefan y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Pensiwn gweithle

Os byddwch yn cael eich diswyddo, bydd angen i chi wneud un o'r canlynol fel arfer:

- Gadael eich pensiwn gyda'ch cyflogwr a phan fyddwch yn ymddeol byddwch yn derbyn incwm ymddeol o'r cynllun hwnnw. Dyma yw'r dewis gorau fel arfer os ydych yn perthyn i gynllun buddiannau diffiniedig.
- Trosglwyddo eich potyn pensiwn. Gallech wneud hyn i gynllun cyflogwr newydd pan fyddwch yn dod o hyd i swydd newydd, os bydd y cynllun newydd yn caniatáu hynny, neu i'ch pensiwn personol eich hun. Dylech gymharu'r costau a'r termau yn ofalus gyda chynllun eich cyflogwr blaenorol a byddwch yn wyliadwrus rhag ildio unrhyw fuddiannau diffiniedig.
- Os ydych yn ddigon hen, efallai y gallwch gymryd ymddeoliad cynnar. Gweler tudalen 7.

Ystyriwch gael cyngor proffesiynol gan gynghorydd ariannol a fydd yn gallu trafod eich opsiynau gyda chi – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol (NEST)

Mae NEST yn gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Os yw eich cyflogwr wedi'ch cofrestru chi yn NEST, er eich bod yn gadael y swydd, byddwch yn parhau i fod yn aelod o NEST a gallwch barhau i gyfranogi ynddo (ond bydd cyfraniadau eich cyflogwr yn dod i ben).

Mae eich cyfraniadau i NEST yn hyblyg. Efallai y byddwch yn dymuno atal y cyfraniadau os yw arian yn brin yn awr neu os ydych yn cael swydd newydd gyda chynllun pensiwn gwahanol. Ond gallwch barhau i gadw eich potyn pensiwn gyda NEST.

Pensiwn personol

Efallai eich bod yn perthyn i gynllun gweithle sy'n bensiwn personol (fel arfer bydd yn bensiwn personol grŵp neu'n gynllun cyfranddeiliaid) neu efallai bod gennych bensiwn personol eich hun. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cysylltu i chi, nid i swydd benodol.

Mae hyn yn golygu, wrth adael swydd, y gallwch barhau i dalu i mewn i'r cynllun os byddwch yn dymuno, ond bydd eich cyflogwr yn rhoi'r gorau i gyfrannu. Os oedd eich cyflogwr wedi negodi termau arbennig, megis taliadau is, efallai na fydd y rhain yn parhau i fod ar gael i chi.

A wyddech chi?

Ar hyn o bryd, os ydych wedi bod yn aelod o gynllun cwmni am lai na dwy flynedd, mae gennych ddewis i gael ad-daliad o'r cyfraniadau rydych wedi'u talu (ond nid unrhyw gyfraniadau a dalwyd i chi gan eich cyflogwr.) Didynnir treth o'r ad-daliad.

Gadael gwaith

Ar ôl i chi gael gwybod y byddwch yn colli eich swydd, mae gennych hawliau amrywiol i'ch helpu i addasu a dod o hyd i waith newydd. Mae gennych hawl hefyd i isafswm cyfnod o rybudd.

Rhybudd

Dangosir isafswm y cyfnod y dylech ei gael yn y tabl isod. Fodd bynnag, os yw eich cytundeb cyflogaeth yn rhoi cyfnod o rybudd hwy i chi, mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi hwn i chi.

Cadarnhewch hyn drwy ddarllen eich cytundeb.

Amser i ffwrdd i chwilio am waith neu hyfforddiant

Mae gennych hawl i gael amser i ffwrdd i chwilio am waith neu ymgymryd â hyfforddiant, ar yr amod eich bod wedi gweithio'n barhaus i'ch cyflogwr am o leiaf dwy flynedd.

Mae'n rhaid i'r swm o amser y gallwch ei gael fod yn rhesymol ac mae gennych hawl i ddwy ran o bump (40%) o gyflog wythnosol tra byddwch i ffwrdd. Er enghraifft, os ydych yn gweithio wythnos pum niwrnod a'ch bod yn cymryd dau ddiwrnod i ffwrdd i fynd i gyfweliadau, yna bydd eich cyflogwr yn eich talu chi am yr amser hwn. Os byddwch yn cymryd cyfanswm o bedwar diwrnod i ffwrdd, efallai y byddwch ond yn cael eich talu am y ddau ddiwrnod cyntaf. Mae rhai cyflogwyr yn fwy hael, felly mae'n werth trafod hyn wrth negodi eich telerau colli swydd.

Isafswm cyfnod o rybudd

Os ydych wedi bod yn gyflogedig:	Yr isafswm cyfnod o rybudd y dylid ei roi i chi yw:	Enghraifft:
O leiaf 1 mis a hyd at 2 flynedd	1 wythnos	Os ydych wedi'ch cyflogi am 18 mis, dylid rhoi o leiaf un wythnos o rybudd i chi.
Dros 2 flynedd a hyd at 12 mlynedd	1 wythnos o rybudd am bob blwyddyn a weithiwyd	Os ydych wedi'ch cyflogi am bum mlynedd, dylech gael o leiaf pum wythnos o rybudd.
Mwy na 12 mlynedd	12 wythnos o rybudd	Os ydych wedi'ch cyflogi am fwy na 12 mlynedd, dylech gael o leiaf 12 wythnos o rybudd.

Absenoldeb gardd

Efallai y bydd eich cyflogwr yn gofyn i chi gyflawni eich cyfnod o rybudd colli swydd i ffwrdd o'r gwaith (a elwir yn 'absenoldeb gardd'). Rydych yn parhau i fod wedi'ch cyflogi yn gyfreithiol felly mae'n rhaid i chi ddilyn rheolau eich cytundeb, megis is-gymalau cyfrinachedd. Gall eich cyflogwr gynnig absenoldeb gardd i chi oherwydd, er enghraifft, bod gennych fynediad at wybodaeth gyfrinachol neu gwsmeriaid, neu maent eisiau i rywfaint o amser fynd heibio cyn i chi ddechrau gweithio i gystadleuwr.

Os ydych ar absenoldeb gardd, gall eich cyflogwr eich galw yn ôl i'r gwaith os bydd eich angen. Yn ystod y cyfnod hwn byddwch yn derbyn eich cyflog a'ch buddiannau arferol ond ni chewch ddechrau swydd gyda chyflogwr newydd.

Awgrym defnyddiol

Os cynigir swydd i chi a bod eich cyflogwr newydd eisiau i chi ddechrau cyn i'r cyfnod o rybudd ddod i ben, dylech drafod hyn gyda'ch cyflogwr presennol. Mae angen i chi fod yn ymwybodol y gallech golli eich hawl i dâl colli swydd a/neu eich tâl cyfnod o rybudd.

Os ydych yn ansicr am hyn gofynnwch am gyngor eich undeb llafur, Acas neu, yng Ngogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Cysylltiadau Llafur – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Rhestr wirio diwrnod olaf

Ar eich diwrnod olaf yn y gwaith dylech dderbyn y canlynol:	✓
Unrhyw dâl colli swydd, cyflogau, tâl gwyliau ac unrhyw arian arall sy'n ddyledus i chi.	✓
Geirdaon gan eich cyflogwr.	✓
Llythyr yn nodi dyddiad eich diswyddiad.	✓
Eich P45 (i'w rhoi i gyflogwr newydd er mwyn cael eich trethu'n gywir).	✓
Manylion eich trefniadau pensiwn.	✓

Hawlio budd-daliadau a hawliadau'r wladwriaeth

Cyn gynted ag y bydd eich gwaith yn dod i ben, dylech gysylltu â Chanolfan Byd Gwaith neu'r Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon. Dyma asiantaethau'r llywodraeth sy'n ymdrin â hawliadau budd-daliadau.

Credydau Yswiriant Gwladol

Bydd faint o Bensiwn y Wladwriaeth y byddwch yn ei gael yn y pen draw a'ch hawl i rai budd-daliadau gwladol eraill yn dibynnu ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Yn gyffredinol, byddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol tra byddwch yn gweithio. Mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft tra byddwch yn ddi-waith, fe'ch credydir fel petaech wedi talu cyfraniadau. Rydych yn cael y credydau hyn yn awtomatig os byddwch yn ddi-waith neu yn chwilio am waith yn weithredol ac yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-daliadau eraill sydd â buddion prawf modd.

Os ydych yn ddyn di-waith sydd wedi cyrraedd oedran cymwys, byddwch yn cael credydau Yswiriant Gwladol yn awtomatig heb orfod chwilio am waith na hawlio budd-daliadau. Yr oedran cymwys yw oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched, sydd yn cynyddu yn raddol i 65 erbyn Tachwedd 2018. Yna bydd yn cynyddu mewn cyfnodau, ochr yn ochr â dynion, hyd nes iddo gyrraedd 68.

Lwfans Ceisio Gwaith

Mae tri phrif fath o fudd-dal:

- **Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Cyfraniadau (heb brawf modd).** Byddwch yn cael y budd-daliadau hyn os byddwch wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol tra'r oeddech yn gweithio (neu wedi cael eich credydu â chyfraniadau, er enghraifft, tra roeddech ar absenoldeb mamolaeth). Mae gennych hawl i'r budd-daliadau hyn beth bynnag yw cynilion eich aelwyd, ond gall rhai mathau o incwm gael effaith ar y swm y byddwch yn ei gael.
- **Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm (gyda phrawf modd).** Bydd eich cymhwyster i gael y rhain yn dibynnu a yw incwm eich aelwyd a'ch cynilion yn isel, nid ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.
- **Lwfans Ceisio Gwaith o fath newydd (heb brawf modd).** Os ydych chi'n byw mewn ardal gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol, efallai y bydd modd i chi hawlio'r budd-dal hwn am chwe mis. Mae'r swm yn dibynnu ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bydd y swm y byddwch chi'n ei dderbyn yn cael ei dynnu o'ch taliad Credyd Cynhwysol misol.

Wyddoch chi

Os byddwch yn gwneud hawliad am Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, gan ddibynnu ble yr ydych yn byw a'ch amgylchiadau personol, efallai y gofynnir i chi hawlio Credyd Cynhwysol yn lle hynny – gweler tudalen 23.

Hawlio budd-daliadau

Gan ddibynnu ar ble'r ydych chi'n byw, os ydych chi'n edrych am waith efallai y bydd gofyn i chi bellach hawlio Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniad.

Credyd Cynhwysol
Mae Credyd Cynhwysol yn disodli:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Gysylltiedig ag Incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth mewn Gwaith
- Budd-dal Tai.

Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, byddwch yn derbyn elfennau ar wahân o Credyd Cynhwysol i dalu am gostau tai, plant a dibynyddion eraill.

Os ydych chi'n gymwys fe allech chi hefyd allu hawlio Lwfans Ceisio Gwaith arddull newydd am chwe mis.

Taliadau Credyd Cynhwysol
Telir Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i'ch banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif undeb credyd.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru neu Lloegr, byddwch chi'n derbyn un taliad i'r cartref bob mis.

Yn yr Alban, gallwch ddewis derbyn taliadau bob pythefnos.

Yng Ngogledd Iwerddon, rydych chi'n derbyn taliadau yn awtomatig bob pythefnos, ond gallwch chi ddewis derbyn taliadau misol yn lle hynny.

Gweler ein gwefan i ddysgu mwy am Gredyd Cynhwysol **moneyadviceservice.org.uk/cy/categories/universal-credit**

Mae'ch taliad Credyd Cynhwysol wedi'i seilio ar eich amgylchiadau a gwahanol elfennau Credyd Cynhwysol y mae gennych chi'r hawl iddynt.

Mynnwch amcangyfrif o'ch taliad Credyd Cynhwysol posibl yn: **BetterOffCalculator.co.uk**

Pwynt allweddol

Mae dau wasanaeth ar hyn o bryd ar gyfer hawlio budd-daliadau, gan ddibynnu ble'r ydych chi'n byw yn y DU.

Os ydych chi'n byw mewn ardal gwasanaeth llawn, gofynnir i chi hawlio Credyd Cynhwysol.

Os ydych chi'n byw mewn ardal gwasanaeth byw, byddwch chi'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ond gofynnir i chi symud i Gredyd Cynhwysol ar ryw bwynt.

Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Cyfraniadau

I fod yn gymwys i dderbyn Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau, rhaid i chi fod yn iau nac oed Pensiwn y Wlad ac ar gael, ac yn ymroi i geisio gwaith.

Fel arfer byddwch chi'n gallu hawlio hwn os ydych chi wedi bod yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel cyflogai am o leiaf ddwy flwyddyn dreth lawn (mae blwyddyn dreth yn rhedeg o 6 Ebrill un flwyddyn i 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol).

Bydd raid i chi fynd i gyfweliad fel rhan o'ch hawliad a 'llofnodi' yn gyson trwy fynd i'ch Canolfan Byd Gwaith leol (neu Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau os byddwch yn byw yng Ngogledd Iwerddon).

Faint ydyw?
Telir Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau am hyd at 182 diwrnod (tua chwe mis) ac nid yw wedi'i effeithio gan gynilion eich cartref. Yn 2018-19, telir Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfradd sefydlog o £73.10 yr wythnos, neu £57.90 yr wythnos os byddwch dan 25.

Bydd faint o Lwfans Ceisio Gwaith y byddwch yn ei gael yn cael ei ostwng gan unrhyw enillion sydd gennych dros £5 yr wythnos ac unrhyw bensiwn galwedigaethol neu bersonol o fwy na £50 yr wythnos. Nid yw incwm arall – er enghraifft llog o gynilion – yn cael effaith ar faint o Lwfans Ceisio Gwaith y byddwch yn ei gael. Os oes gennych bartner, nid yw ei enillion ef neu ei henillion hi yn effeithio ar eich Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniad chi.

Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm

Mae hwn yn fudd-dal prawf modd y gallech chi ei dderbyn os ydych chi'n byw mewn ardal gwasanaeth byw a:

- nad ydych chi wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol i fod â'r hawl i Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau, neu
- bod eich hawl i chwe mis o Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau wedi dod i ben.

Mae Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm yn seiliedig ar amgylchiadau eich aelwyd yn hytrach na'ch amgylchiadau chi eich hun. Mae hyn yn golygu bod Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm wedi'i effeithio gan incwm a chynilion eich partner ynghyd â'ch un chi.

Os oes gennych bartner sy'n gweithio, bydd hynny yn effeithio ar faint fyddwch chi'n ei gael. Os bydd eich partner yn gweithio 24 awr neu fwy'r wythnos, nid ydych yn debygol o fod yn gymwys am Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm.

Os ydych chi'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, efallai y gofynnir i chi symud i Gredyd Cynhwysol ar ryw bwynt.

Faint ydyw?
Mae'r swm y byddwch chi'n ei dderbyn yn dibynnu ar yr incwm yr ystyrir sydd ei angen ar eich aelwyd (o'r enw 'swm cymwys'), llai unrhyw incwm sydd gennych chi.

Yn 2018-19, y symiau perthnasol safonol yw:

- £73.10 yr wythnos i bobl sengl 25 oed a hŷn
- £57.90 yr wythnos i rai dan 25 oed
- £114.85 yr wythnos i gyplau pan fydd y ddau yn 18 oed neu hŷn.

Ond, gall y swm fod yn uwch gan ddibynnu ar eich amgylchiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am Lwfans Ceisio Gwaith a sut i'w hawlio ewch i **gov.uk/jobseekers-allowance**

Hawlio Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith

Credyd Cynhwysol
Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch chi fel arfer yn gorfod gwneud cais a rheoli'ch hawliad ar-lein.

Os ydych chi eisiau helpu wrth ddysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur neu wella'ch sgiliau:

- ffoniwch neu ymwelwch â'ch llyfrgell leol am gymorth i fynd ar-lein.
- gofynnwch i'ch cynghorydd Canolfan Byd Gwaith neu hyfforddwr gwaith.
- ffoniwch y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol ar 0800 100 900.
- ymwelwch â'r Rhwydwaith Canolfan Ar-lein yn ukonlinecentres.com i ganfod eich canolfan hyfforddi agosaf.
- rhowch gynnig ar y cyrsiau am ddim ar ddefnyddio cyfrifiadur, pori'r we a chanfod gwaith ar-lein yn learnmyway.com

Lwfans Ceisio Gwaith
Os ydych chi'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, bydd angen i chi fynychu cyfweliad wyneb yn wyneb yn y Ganolfan Byd Gwaith. Gelwir hwn yn 'gyfweliad ceisio gwaith newydd'. Bydd cynghorydd personol yn eich helpu i lunio cytundeb yn nodi'r camau y byddwch yn cytuno i'w cymryd i ddod o hyd i waith. Bydd yn rhaid i chi fynychu'r Ganolfan Byd Gwaith yn rheolaidd i gadarnhau'r hawliad budd-daliadau.

Cynilion a budd-daliadau prawf modd

Bydd cynilion o dros £6,000 yn dechrau gostwng swm y Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm y byddwch yn gallu'i dderbyn a bydd cynilion o dros £16,000 yn golygu na fyddwch chi'n gymwys am ddyfarniad.

Budd-daliadau a help gyda rhent

Credyd Cynhwysol
Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol ac yn rhentu, mae'ch costau tai wedi'u cynnwys yn eich taliad.

Gellir naill ai ei dalu'n uniongyrchol i'ch landlord neu i'ch cyfrif banc a byddwch chi'n gyfrifol am wneud y taliad.

Yng Nghymru a Lloegr, telir yr arian hwn i'ch cyfrif banc.

Yn yr Alban, gallwch ddewis talu'ch rhent eich hun neu gellir ei dalu'n uniongyrchol i'ch landlord.

Yng Ngogledd Iwerddon, telir eich rhent yn awtomatig i'ch landlord. Ond gallwch ddewis derbyn yr arian yn uniongyrchol a thalu'ch landlord eich hun.

Budd-dal Tai
Os na allwch chi hawlio Credyd Cynhwysol, fe allech chi fod yn gymwys am Fudd-dal Tai i'ch helpu chi i dalu'ch rhent (ac, yng Ngogledd Iwerddon, eich Ardrethi).

Bydd eich cymhwyster a faint y byddwch chi'n ei dderbyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis eich amgylchiadau personol, ble'r ydych chi'n byw ac a ydych chi'n rhentu yn breifat neu gan gymdeithas dai neu gyngor.

Gallwch hawlio Budd-dal Tai a Lwfans Ceisio Gwaith ar y cyd trwy Ganolfan Byd Gwaith (neu'r Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon).

- Dysgwch fwy am Fudd-dal Tai, gan gynnwys pwy sy'n gymwys a faint y byddwch chi'n ei dderbyn yn **gov.uk/housing-benefit**

Gostyngiad yn y Dreth Gyngor
Rhaid i'r rhan fwyaf o oedolion yn Lloegr, yr Alban a Chymru dalu'r Dreth Gyngor i'w cyngor lleol. Ond, os bydd eich incwm yn isel, rhaid i'ch cyngor gytuno i ostwng eich bil. Mae faint fydd y gostyngiad yn dibynnu ar gynllun lleol eich cyngor chi.

- Hawliwch trwy eich cyngor lleol. Dysgwch ragor am sut i ymgeisio: **gov.uk/council-tax-reduction**

Help gyda chostau morgais

Gallai perchnogion tai ar rai budd-daliadau prawf modd, gan gynnwys Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, fod yn gallu derbyn cymorth gyda'u taliadau llog morgais, o'r enw Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais. Serch hynny, ni thelir hyn am 39 wythnos gyntaf eich hawliad.

Mae Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais bellach yn fenthyciad i'w ad-dalu wedi'i ddiogelu ar eich eiddo.

- Dewch o hyd i ragor o wybodaeth am Gymorth ar gyfer Llog ar Forgais, gan gynnwys pwy sy'n gymwys a faint y byddwch yn ei gael: **gov.uk/support-for-mortgage-interest**
- Am gyngor a chefnogaeth tai – gweler tudalennau 37 i 39.

Budd-daliadau eraill

Gan ddibynnu ar ble'r ydych chi'n byw, os ydych chi'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm fe allech chi fod yn gymwys i fudd-daliadau prawf modd eraill neu gredydau treth, gan ddibynnu ar eich incwm, eich cynilion a chyflyrau eraill.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am holl fudd-daliadau'r wladwriaeth a sut i'w hawlio trwy fynd i wefan GOV.UK – gweler **gov.uk/benefits-adviser**

Credydau treth

- Os ydych wedi bod yn **gweithio a chael credydau treth**, a bod eich swydd yn cael ei dileu, rhaid i chi **ddweud wrth y Swyddfa Credydau Treth yn syth.** Gall peidio â gweithio olygu nad ydych yn gymwys am Gredyd Treth Gweithio bellach. Ond gall eich incwm llai ar yr aelwyd olygu bod credydau treth eraill yn codi.
- Os gredwch chi y gallech chi fod yn gymwys am gredydau treth oherwydd eich incwm gostyngol, fe ddylech chi **gysylltu â'r Swyddfa Credyd Treth ar 0345 300 3900**. Neu gallwch gael syniad a ydych yn debygol o fod yn gymwys yma: **gov.uk/qualify-taxcredits**
- Os yw eich **incwm ar hyn o bryd yn rhy uchel i fod yn gymwys**ar gyfer credydau treth ond eich bod yn meddwl y gall eich swydd gael ei dileu, dylech ystyried **gwneud 'hawliad diogelu'**. Mae hyn yn golygu hawlio credydau treth yn awr fel eich bod yn y system er y byddwch ar hyn o bryd yn cael dyfarniad o £0. Os bydd eich swydd yn cael ei dileu, gall eich dyfarniad £0 presennol gael ei adolygu wedyn. Os byddwch yn aros nes bydd eich swydd yn cael ei dileu cyn hawlio, dim ond am un mis y gellir dyddio eich hawliad yn ôl.

Mae system dreth y Deyrnas Unedig yn gymhleth. Am gyngor ar sail eich sefyllfa chi eich hun, cysylltwch â Chanolfan Byd Gwaith neu eich Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau leol yng Ngogledd Iwerddon – gweler *Cysylltiadau defnyddiol.* ar dudalen 46.

Hawlio ar eich yswiriant

Yswiriant diogelu taliadau (PPI)

Cynlluniwyd yswiriant diogelu taliadau i'ch helpu i gadw i fyny â'ch taliadau ar eich dyledion os na fyddwch yn gallu gweithio am eich bod yn sâl, wedi cael damwain neu fod eich swydd yn cael ei dileu. Caiff hefyd ei alw yn yswiriant credyd, yswiriant diogelu benthyciadau ac yswiriant damweiniau, salwch a diweithdra (ASU).

Efallai y bydd hwn wedi ei werthu i chi gyda'ch morgais, benthyciadau, cardiau credyd neu gardiau credyd siopau. Dylai dalu rhywfaint neu'r cyfan o'ch ad-daliadau pan fydd eich swydd wedi ei dileu. Fel arfer bydd y polisïau yma yn dechrau talu rhwng un a thri mis ar ôl i'ch incwm ddod i ben a pharhau i dalu am hyd at 12 neu 24 mis.

Darllenwch eich dogfennau yn ofalus i weld a oes gennych unrhyw un o'r polisïau canlynol:

- yswiriant diogelu taliadau morgais
- yswiriant diogelu taliadau ar unrhyw fenthyciadau neu gardiau credyd
- yswiriant diogelu incwm
- yswiriant diogelu incwm tymor byr.

Os oes gennych PPI, hawliwch ar unwaith – fel arfer mae cyfnod o aros cyn y bydd unrhyw daliadau yn cychwyn, ond gall hawlio'n gynnar olygu y byddwch yn cael eich talu yn brydlon.

Eich hawliad wedi ei wrthod?

Os oes gennych yswiriant ac mae eich cais yn cael ei wrthod, mae'n bosibl bod y polisi wedi'i gam-werthu i chi ac fe allech fod yn gymwys i hawlio iawndal.

Darganfyddwch fwy:
Chwiliwch am *'Adennill PPI'* ar **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio cwmni rheoli hawliadau masnachol. Yn nodweddiadol maen nhw'n hawlio 30% o unrhyw iawndal a roddir i chi ac nid oes arnoch angen eu help mewn gwirionedd.

Y ffordd hawsaf o hawlio am PPI wedi'i gam-werthu yw trwy ymweld â **www.fca.org.uk/ppi**

Awgrym da

Oherwydd y ffordd y byddai polisïau diogelu taliadau'n cael eu gwerthu yn y gorffennol, efallai na fyddwch yn sylweddoli bod gennych yr yswiriant hwn. Felly mae'n werth holi eich darparwr morgais, benthyciad neu gerdyn credyd, hyd yn oed os nad ydych yn meddwl bod gennych yr yswiriant hwn.

Wyddoch chi

Y dyddiad cau ar gyfer cwynion PPI yw 29 Awst 2019.

Gwneud y gorau o'ch tâl colli swydd

Efallai eich bod wedi derbyn cyfandaliad colli swydd. Tra byddwch yn penderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r arian, mae yna ddau beth y mae angen i chi eu gwneud i ddechrau.

Cam 1 – Rhoi rhywfaint o'r arian o'r neilltu ar gyfer treth.

Felly, os cewch fil treth ar ddiwedd y flwyddyn, byddwch yn barod amdano. Mae gwybodaeth bellach ar dudalen 15 am dreth ar dâl colli swydd.

Cam 2 – Rhoi'r arian mewn cyfrif cynilo mynediad hawdd.

Bydd hyn yn golygu y bydd yn ennill mwy o log na chyfrif cyfredol ond bydd yn eich galluogi i gael gafael arno'n gyflym pan fyddwch ei angen.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn rhoi rhai syniadau o sut i wneud y defnydd gorau o'ch arian.

Canfod arian parod yn gyflym

Angen canfod arian yn gyflym?
Cynilwch ar gyfer y pethau rydych eu heisiau drwy dorri'n ôl ar bethau rydych yn eu prynu'n rheolaidd gyda'n hoffer Canfod Arian Cyflym.

Treuliwch bum munud yn mynd i
moneyadviceservice.org.uk/cy/tools/canfod-arian-parod-yn-gyflym

Defnyddio eich tâl colli swydd

Dylech ategu eich incwm nes y byddwch yn cael swydd newydd	■ Defnyddiwch y lluniwr Cyllideb ar dudalen 32 i gyfrifo faint sydd ei angen arnoch bob wythnos neu fis, ac am ba hyd y gallwch wneud i'r arian bara.
Cliriwch eich dyledion, os bydd hyn yn llwyddo i leihau eich gwariant i lefel sy'n haws ei reoli	■ Defnyddiwch y lluniwr Cyllideb ar dudalen 32 i gyfrifo effaith yr arbediad wythnosol neu fisol ar ad-daliadau. ■ Mae'r llog a godir ar ddyledion bron bob amser yn uwch na'r llog a delir ar gynilion. I'r graddau y mae hynny'n bosibl, ceisiwch glirio dyledion drutach megis cardiau siopau cyn y rhai rhatach. ■ Edrychwch i weld a oes unrhyw gosbau ad-dalu cynnar ar ddyledion yr ydych yn ystyried eu had-dalu yn llawn. ■ Gallai ad-dalu dyledion effeithio ar unrhyw hawliad am fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd os nad oedd rhaid i chi ad-dalu'r dyledion a'ch bod wedi gwneud hynny o leiaf yn rhannol er mwyn cynyddu eich budd-daliadau drwy leihau eich cynilion. Ond mae'n annhebygol y bydd ad-dalu dyledion blaenoriaeth, megis morgais neu ôl-ddyledion rhent, yn debygol o effeithio ar eich budd-daliadau. Mae hyn yn faes cymhleth felly gofynnwch am gyngor gan gynghorydd budd-daliadau neu ddyledion – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.
Defnyddiwch fel cyfalaf i ailhyfforddi neu ddechrau eich busnes eich hun	■ Talwch i ailhyfforddi neu ehangu eich sgiliau. ■ Os ydych yn hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth, gofynnwch i'r Ganolfan Byd Gwaith (Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon) am gymorth ariannol tra byddwch yn dechrau eich busnes.
Gallwch roi hwb i'ch cynilion pensiwn neu fuddsoddi mewn ffyrdd eraill	■ Cewch ryddhad treth ar y swm y byddwch yn ei dalu i gynllun pensiwn (hyd at uchafsymiau penodol – gweler tudalen 30). ■ Os ydych yn ystyried gwneud hyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn cael cyngor gan gynghorydd ariannol – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Awgrym defnyddiol

Ceisiwch gadw rhywfaint o'ch arian colli swydd ar gyfer costau annisgwyl, megis car neu atgyweiriadau i'ch cartref. Y rheol gyffredinol yw y dylech geisio neilltuo swm sy'n gyfwerth â thri mis o wariant hanfodol.

Cynilo neu fuddsoddi tâl colli swydd

Os nad ydych eisiau dechrau defnyddio eich tâl colli swydd ar unwaith efallai y byddwch yn dymuno ei gynilo neu ei fuddsoddi.

Cynilo tymor byr risg isel
Os bydd angen i chi gael gafael ar yr arian i'ch helpu nawr neu yn y pum mlynedd nesaf, mae cyfrif cynilo yn debygol o fod yn addas. Gallech ystyried er enghraifft:

- **ISA Arian Parod.** Mae'r llog yn ddi-dreth ac mae nifer ohonynt yn rhoi mynediad rhwydd i chi at eich arian. Gallwch gynilo hyd at £20,000 mewn ISA arian parod yn y flwyddyn dreth bresennol 2018-19.
- **Cyfrifon tymor.** Os ydych yn hyderus nad oes angen yr arian arnoch yn awr, gallwch gael cyfradd llog gwell fel arfer drwy gytuno i beidio cyffwrdd â'r arian am gyfnod penodol, fel arfer rhwng un a phum mlynedd.

➔ Gwnewch ymholiadau i ganfod y cyfrifon cynilo gorau ar-lein neu edrychwch ar y tablau 'best buy' mewn papurau newydd.

Buddsoddiadau tymor hwy
Os nad oes angen eich tâl colli swydd arnoch i dalu am bethau ar unwaith, gallech ystyried ei fuddsoddi. Ond os nad ydych yn siŵr am ba hyd y byddwch yn ddi-waith, mae'n bosibl na fydd hyn yn syniad da.

Dros gyfnod o ddeg mlynedd neu fwy, mae buddsoddiadau, megis cyfranddaliadau, yn dueddol o roi elw uwch na chyfrifon cynilo. Ond mae mwy o risg yn gysylltiedig â buddsoddiadau sy'n seiliedig ar gyfranddaliadau oherwydd gall gwerth eich buddsoddiad ostwng yn ogystal â chynyddu, felly nid ydynt yn gartref i arian y gallai fod ei angen arnoch yn fuan neu ar fyr rybudd.

➔ Os nad ydych wedi buddsoddi o'r blaen, neu os oes gennych swm mawr i'w fuddsoddi, gofynnwch am gymorth gan gynghorydd ariannol – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

➔ Chwiliwch am *'Buddsoddi – canllaw i ddechreuwyr'* ar **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Pwynt allweddol

➔ Os ydych yn credu y gallai fod angen i chi gael mynediad i'ch arian ar unwaith, bydd cyfrif cynilo yn fwy addas na chyfranddaliadau neu fuddsoddiadau eraill.

Defnyddiwch eich tâl dileu swydd i roi hwb i'ch pensiwn

- Os ydych chi'n agos at oed ymddeol, fe allech chi roi peth neu'r cyfan o'ch arian dileu swydd yn eich cynllun pensiwn yn y gwaith i roi hwb i'r pensiwn yr ydych ar fin ei gymryd. Trafodwch hyn gyda'ch adran Adnoddau Dynol i gael gwybod sut y byddai'n cynyddu'r pensiwn y gallwch ei gael.
- Os yw'ch ymddeoliad yn dal gryn bellter i ffwrdd, gallech fuddsoddi eich arian dileu swydd mewn cynllun pensiwn personol i helpu i roi hwb i'ch incwm ar ôl ymddeol. Os ydych chi'n perthyn i NEST, fe allech chi roi peth o'ch arian dileu swydd yno yn lle hynny.

Rhyddhad treth ar bensiynau
Mae rhoi arian mewn pensiwn yn ffordd effeithlon o ran treth o fuddsoddi, ond fel arfer ni fyddwch yn gallu cael mynediad at eich cynilion nes byddwch chi'n 55 mlwydd oed o leiaf.

Gall y swm y byddwch yn ei dalu i bensiwn fod yn gymwys i gael rhyddhad treth, hyd at derfynau. Os ydych yn drethdalwr yn y DU, yn y flwyddyn dreth 2018-19 efallai y byddwch yn gymwys i gael gostyngiad treth ar gyfraniadau pensiwn hyd at 100% o'ch enillion neu lwfans blynyddol o £40,000, pa un bynnag yw'r isaf. Gall y rhai nad ydynt yn drethdalwyr barhau i hawlio rhyddhad treth ar gyfraniadau o hyd at £3,600.

Er enghraifft, os byddwch yn ennill £20,000 i gyd yn ystod y flwyddyn dreth, gallwch gael rhyddhad treth ar hyd at £20,000 o gyfraniadau pensiwn.

Gallai lwfans blynyddol gostyngol o £4,000 fod yn gymwys yng nghyswllt cyfraniadau pensiwn DC, a elwir yn lwfans blynyddol prynu arian (MPAA), ar gyfer unigolion sydd wedi cael mynediad hyblyg i'w budd-daliadau.

- Mae hwn yn faes cymhleth felly gofynnwch am gyngor gan gynghorydd ariannol bob amser. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Sut i ymdopi ar lai o arian

P'un a yw eich swydd eisoes mewn perygl neu os ydych yn poeni am doriadau posibl, un o'r pethau pwysicaf y gallwch eu gwneud ar yr adeg hon yw arolygu eich sefyllfa ariannol a dechrau ei rheoli.

Llunio cyllideb

Cyllideb yw rhestr o'ch holl incwm a gwariant. Os ydych eisoes wedi colli eich gwaith, efallai y bydd angen i chi gyllidebu'n ofalus nes y cewch swydd newydd.

- Defnyddiwch ein **Cynllunydd cyllideb** ar-lein yn **moneyadviceservice.org.uk/cynllunydd-cyllideb**
- Neu cwblhewch y **Cynllunydd Cyllideb** – ar dudalen 32.
- Meddyliwch am eich gwariant nad yw'n hanfodol. Allwch chi dorri hyn o'ch incwm os yw'n cael ei ymestyn yn ormodol?
- Darganfyddwch sut. Chwiliwch am *'Rheoli eich arian os yw eich swydd mewn perygl'* yn **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Cynllunydd cyllideb

Defnyddiwch ein **Cynllunydd cyllideb** i gyfrifo sut y gallwch wneud newidiadau er mwyn ymestyn eich arian.

Bydd yr offeryn hwn yn rhoi darlun clir i chi o beth sydd gennych yn dod i mewn a'r arian sydd ei angen i fynd allan.

Ewch i **moneyadviceservice.org.uk/cy/tools/cynllunydd-cyllideb/start**

Adeiladydd cyllideb

Eich incwm		£
Budd-daliadau'r wladwriaeth (Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Cynhwysol, arall)		
Incwm o unrhyw bolisïau yswiriant		
Enillion o unrhyw swyddi neu hunangyflogaeth		
Incwm arall (er enghraifft, o gynilion, incwm rhent)		
Cyfanswm incwm	**A**	
Eich gwariant		**£**
Costau tai (rhent neu forgais, tâl gwasanaeth/rhent tir, y Dreth Gyngor, Trethi yng Ngogledd Iwerddon, cynhaliaeth/atgyweiriadau) ond nid unrhyw symiau sy'n cael eu talu gan y Gostyngiad Treth Gyngor neu Fudd-dal Tai		
Biliau'r cartref (trydan, nwy, olew/tanwydd solet, dŵr, ffôn, band eang, teledu)		
Bwyd a siopa cyffredinol		
Yswiriant (adeiladau, cynnwys, car, bywyd, iechyd, anifail anwes)		
Costau teithio (petrol/disel, treth cerbyd, cynnal a chadw car ac MOT, parcio, bws, trên, tiwb, arall)		
Ad-daliadau benthyciadau (ar wahân i forgais)		
Cynilion arferol		
Costau chwilio am waith (papurau newydd, defnyddio'r rhyngrwyd, galwadau ffôn, llungopïo, postio, teithio i gyfweliadau)		
Gwariant arall		
Cyfanswm gwariant	**B**	
Gwarged neu ddiffyg	**A-B**	

Awgrymiadau gwneud arian

Yn wynebu colli'ch swydd? Mae llawer o ffyrdd o roi hwb i'ch incwm pan fydd hi'n anodd arnoch. Yn yr adran hon rydym yn tynnu sylw at rai o'r pethau y gallwch eu gwneud.

Chwiliwch am y fargen orau i arbed arian

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y fargen orau ar filiau cyfleustodau a biliau eraill. Defnyddiwch fwy nag un safle cymharu i gael y fargen orau.
- Chwiliwch am y fargen orau pan fydd angen adnewyddu yswiriant eich car neu gartref gan y bydd llawer o yswirwyr yn codi mwy os byddwch yn ddi-waith.
- Edrychwch a oes ffyrdd eraill o wario llai a siopa yn fwy craff. Chwiliwch am *'Awgrymiadau arbed arian'* ar **moneyadviceservice.org.uk/cy**
- Ceisiwch dorri'n ôl ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Defnyddiwch ein hofferyn **Dod o hyd i arian yn gyflym** yn **moneyadviceservice.org.uk/canfod-arian-parod-yn-gyflym**

Cael help gyda biliau gwresogi

Mae gan y rhan fwyaf o gyflenwyr ynni Ddisgownt Cartref Cynnes i gwsmeriaid bregus. Y darparwyr unigol sy'n penderfynu pwy sy'n fregus yn eu tyb hwy. Rhaid i'ch incwm fod yn isel, ond efallai y bydd raid i chi fodloni amodau eraill hefyd, fel bod â phlant neu unigolyn hen neu anabl yn rhan o'ch aelwyd.

Am wybodaeth cysylltwch â'ch darparwr ynni yn uniongyrchol neu ewch i **www.gov.uk/the-warm-home-discount**

A wyddech chi?

- Gall troi eich gwres i lawr un radd arbed oddeutu £55 y flwyddyn mewn cartref arferol.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Edrychwch i weld a allwch hawlio ad-daliad treth

Gofynnwch i'ch swyddfa dreth a allwch gael ad-daliad treth nawr bod eich incwm yn is. Os bydd eich enillion yn dod i ben rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn, efallai y bydd gennych rywfaint o lwfans heb ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn ac y gallwch hawlio ad-daliad treth.

- Chwiliwch am *'Ad-daliadau treth'* ar **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Awgrym defnyddiol

- Gallai cymharu cytundebau ar ffonau symudol, band eang, teledu lloeren a chardiau credyd, yn ogystal â biliau ynni, arbed cannoedd o bunnoedd i chi bob blwyddyn.

Cymryd lletywr

O dan gynllun gosod ystafell, gallwch ennill hyd at £7,500 y flwyddyn mewn incwm rhent, yn ddi-dâl, os byddwch yn cymryd lletwyr. Fodd bynnag, dylech gofio y bydd unrhyw rent y bydd yn ei dalu yn cael ei ystyried wrth gyfrifo eich hawl i rai budd-daliadau'r wladwriaeth.

- Bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan eich darparwr morgais neu landlord.
- Dywedwch wrth yswiriwr eich cartref – gallai hyn effeithio ar eich yswiriant neu bremiwm.
- Chwiliwch am *'Gosod ystafell'* ar **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Gwneud gwaith achlysurol

Efallai y gallwch gael rhywfaint o waith dros dro neu waith achlysurol, ond bydd yn effeithio ar eich hawl i gael rhai budd-daliadau'r wladwriaeth.

- Am ragor o syniadau chwiliwch am *'Awgrymiadau da ar gyfer gwneud arian pan fyddwch yn wynebu colli'ch swydd'* yn **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Cael help gyda benthyciadau a dyledion

Mae benthyca a chredyd yn rhan o fywyd bob dydd, p'un a yw'n forgais, benthyciad car neu ad-daliadau cerdyn. Mae'r taliadau hyn yn hawdd i'w gwneud pan fydd arian gennych yn dod i mewn, ond gall fod yn anodd os ydych yn colli'ch swydd.

Defnyddiwch eich cynilion i ad-dalu benthyciadau

Nid yw'n gwneud synnwyr eistedd ar eich cynilion tra byddwch yn talu am fenthyciadau drud. Defnyddiwch eich cynilion os oes gennych rai i dalu biliau cerdyn credyd a benthyciadau. Mae cynilion fel arfer yn ennill llai o log na'r llog a godir ar fenthyciadau, felly bydd hyn fel arfer yn gwella eich sefyllfa ariannol.

- I gael rhagor o wybodaeth, chwiliwch am *'A ddylech chi gynilo neu glirio eich dyledion'* yn **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Siaradwch gyda'r bobl y mae arnoch arian iddynt

Os ydych yn dechrau cael problemau gyda'ch dyledion, dylech lunio cyllideb, blaenoriaethu eich dyledion (gweler y dudalen nesaf) a siarad gyda'r bobl y mae arnoch arian iddynt.

- I gael rhagor o wybodaeth, chwiliwch am *'Siarad gyda'r bobl y mae arnoch arian iddynt'* yn **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Gofyn am gymorth os ydych yn cael anhawster gyda dyledion

Os oes gennych bryderon ariannol mawr, y peth olaf y byddwch yn teimlo fel ei wneud yw trafod y rhain gyda dieithryn. Ond, gall fod y peth gorau y gallwch ei wneud.

Y newyddion da yw bod cymorth cyfrinachol, am ddim, ar gael i bawb. Mae Cyngor ar Bopeth, y Llinell Ddyled Genedlaethol, StepChange ac elusennau eraill sy'n darparu cyngor ar ddyledion yn cael eu cynnal gan bobl brofiadol a gwybodus, a fydd yn gallu eich helpu.

- Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46 neu ewch i: **moneyadviceservice.org.uk/dyledion**

Dyledion blaenoriaeth a dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth

Drwy dalu'r dyledion cywir yn gyntaf, rydych yn fwy tebygol o allu cadw eich cartref – a'r gwres ymlaen. A thrwy fod yn graff ynghylch sut y byddwch yn ad-dalu, gallech arbed arian hefyd a chlirio eich dyledion yn gyflymach.

Dyledion blaenoriaeth	Dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth
Mae'r rhain yn flaenoriaeth oherwydd y canlyniadau difrifol os na fyddwch yn eu talu, er enghraifft gallech golli eich cartref neu gallai eich nwy neu drydan gael eu diffodd. Ond hyn fyddai'r dewis olaf.	Os na fyddwch yn talu'r rhain, gallech orfod mynd i'r llys. Gallai hyn arwain at feiliaid yn mynd â'ch eiddo o'ch cartref.
Enghreifftiau o ddyledion blaenoriaeth	**Enghreifftiau o ddyledion nad ydynt yn flaenoriaeth**
■ Eich rhent neu forgais (neu fenthyciad arall wedi'i warantu ar eich cartref) ■ Biliau tanwydd ■ Eitemau hanfodol sy'n cael eu prynu drwy hurbwrcas (megis car sydd ei angen arnoch ar gyfer y gwaith) ■ Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor (Cymru a Lloegr yn unig) ■ Dirwyon llys a thaliadau cynhaliaeth ■ Trwydded deledu ■ Dyledion treth.	■ Dyledion credyd, megis gorddrafftiau, benthyciadau, hurbwrcas ar eitemau nad ydynt yn hanfodol, cardiau credyd a dyledion catalogau ■ Benthyciadau myfyrwyr (er y dylai ad-daliadau gael eu gohirio os bydd eich incwm yn is na lefel benodedig) ■ Arian sydd wedi'i fenthyca gan ffrindiau a theulu.

Gwybodaeth bellach. Chwiliwch am *'Sut i flaenoriaethu'ch dyledion'* yn **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Byddwch yn wyliadwrus o gwmnïau gydag enwau camarweiniol, sy'n swnio fel elusennau dyledion ond sy'n fusnesau mewn gwirionedd. Peidiwch byth â thalu am wasanaethau cyngor ar ddyledion. Defnyddiwch un o'r gwasanaethau sydd ar gael am ddim – gweler Cysylltiadau defnyddiol ar dudalen 46 neu ewch i **moneyadviceservice.org.uk/cy/tools/canfyddwr-cyngor-ar-ddyledion**

Diogelu eich cartref

Os byddwch yn colli eich swydd efallai eich bod yn poeni am golli eich cartref hefyd. Dylech sicrhau bod talu eich rhent neu forgais (neu unrhyw fenthyciad arall sydd wedi'i warantu ar eich cartref) yn flaenoriaeth a gofynnwch am gyngor yn gyflym os byddwch yn profi unrhyw anawsterau.

Os oes gennych broblemau yn talu eich rhent neu forgais, peidiwch dioddef mewn tawelwch – mae help ar gael. Mae nifer o sefydliadau yn cynnig cyngor am ddim ar dai a gallant eich helpu i hawlio unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth y mae gennych hawl iddynt. Mae gennych hawliau tai hefyd, sy'n sicrhau na ellir eich gorfodi i adael eich cartref heb rybudd.

Shelter (Lloegr a'r Alban)
0808 800 4444
shelter.org.uk

Shelter Cymru (Cymru)
0345 075 5005
sheltercymru.org.uk

Gwasanaeth Hawliau Tai (Gogledd Iwerddon)
028 9024 5640
housingrights.org.uk

Anhawster talu'ch rhent

Os ydych yn cael anhawster talu eich rhent, gwnewch ymholiadau i weld a ydych yn gymwys i gael unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth. Gallai hyn gynnwys:

- Budd-dal Tai neu'r Credyd Cynhwysol tuag at eich taliadau rhent (gweler tudalennau 23 a 24), neu
- fudd-daliadau eraill a allai helpu i leddfu'r straen ar eich cyllideb (gweler tudalen 25).

Mynd ar drywydd eich hawliad Budd-dal Tai

Os nad ydych wedi gallu talu eich rhent oherwydd bod eich hawliad Budd-dal Tai wedi'i oedi, cysylltwch â'ch Swyddfa Budd-dal Tai leol i wneud yn siŵr eich bod wedi cwblhau'r holl ffurflenni angenrheidiol. Cadwch nodyn o enwau'r bobl y byddwch yn siarad â hwy.

Shelter (Lloegr a'r Alban)
0808 800 4444
shelter.org.uk

Shelter Cymru (Cymru)
0345 075 5005
sheltercymru.org.uk

Gwasanaeth Hawliau Tai (Gogledd Iwerddon)
028 9024 5640
housingrights.org.uk

Cysylltwch â'ch landlord ar unwaith

Cyn gynted ag y byddwch yn dechrau profi anhawster wrth dalu eich rhent, cysylltwch â'ch landlord ac esboniwch eich sefyllfa. Efallai y gallwch ddod i gytundeb gyda hwy i ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion mewn rhandaliadau bob wythnos, yn ychwanegol at eich taliadau rhent arferol. Os ydych yn denant y cyngor, bydd gan eich cyngor lleol bolisi ynglŷn â sut mae'n casglu ôl-ddyledion rhent.

Cael help a chyngor

Os yw eich landlord eisiau eich troi allan am nad ydych wedi bod yn talu eich rhent yn brydlon, peidiwch â chynhyrfu. Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i'ch landlord ddilyn gweithdrefnau penodol ar gyfer eich troi allan, a thra bydd hyn yn digwydd, bydd gennych gyfle i gael cyngor a chymorth i ddod o hyd i gartref newydd. Beth bynnag yw eich amgylchiadau, mae help a chymorth am ddim ar gael bob amser.

Gwybodaeth bellach. Chwiliwch am *'Ôl-ddyledion rhent'* yn **moneyadviceservice.org.uk/cy**

Anhawster talu morgais

Os ydych yn berchen ar eich cartref a'ch bod yn cael anhawster i dalu eich morgais, mae yna ddau beth y dylech eu gwneud i ddechrau:

1. Edrychwch i weld a oes gennych yswiriant diogelu taliadau morgais y gallwch ei hawlio i'ch helpu gyda'ch ad-daliadau morgais (gweler tudalen 26).
2. Siaradwch gyda'ch darparwr morgais i ganfod a oes gennych hawl i unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth i'ch helpu gyda'ch costau tai (gweler tudalen 24).

Os ydych yn credu na allwch barhau i wneud eich taliadau morgais, cysylltwch â'r darparwr ar unwaith. Dylai eich darparwr benthyciadau drafod gyda chi y ffyrdd y gallwch wneud eich ad-daliadau yn fwy fforddiadwy. Gallai'r rhain gynnwys:

- **lleihau eich ad-daliadau misol** drwy ymestyn cyfnod eich morgais
- **cymryd gwyliau talu** neu gytuno ar ostyngiad dros dro i'ch taliadau
- **rhentu eich eiddo** dros dro tra byddwch yn byw rhywle rhatach
- **rhoi amser i chi werthu eich cartref,** oherwydd rydych yn debygol o gael pris gwell nag a fyddech petai eich darparwr yn adfeddiannu eich cartref ac yn ei werthu ar eich rhan.

Help gyda chostau morgais

Os ydych yn cael rhai budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd, yn cynnwys Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, efallai y gallwch gael help gyda'r taliadau llog ar eich morgais, o'r enw Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei dalu am 39 o wythnosau cyntaf eich hawliad.

I gael gwybodaeth bellach am Gymorth ar gyfer Llog ar Forgais, yn cynnwys pwy sy'n gymwys a faint fyddwch yn ei gael: **gov.uk/support-for-mortgage-interest**

Os ydych yn cael anhawster talu eich morgais neu eich bod yn wynebu adfeddiannu, gofynnwch am gyngor ar unwaith. Ffoniwch Linell Gymorth Shelter ar 0808 800 4444.

Gweithiwch ar eich chwiliad gwaith

Cymorth y wladwriaeth i ddod o hyd i swydd

Bydd eich Canolfan Byd Gwaith (Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon) yn rhoi cymorth a chyngor i chi ar ddychwelyd i'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys:

- **Swyddi gwag** – Mae gan y Ganolfan Byd Gwaith y gronfa ddata fwyaf yn y DU o swyddi gwag (o'r enw Paru Swyddi Ar-lein neu JobCentre Online NI yng Ngogledd Iwerddon).
- **Help a chyngor** ar ysgrifennu CV, gwneud cais am swyddi, llenwi ffurflenni cais a pharatoi ar gyfer cyfweliadau.

Gallant drafod gyda chi hefyd yr help ychwanegol a allai fod ar gael os bydd angen help arnoch i ddarllen, gyda mathemateg neu'r Saesneg, neu os oes angen help arnoch i chwilio am swyddi proffesiynol neu weithredol.

Os ydych yn parhau i fod yn ddi-waith ar ôl tri mis, efallai y bydd angen i chi ymuno â Rhaglen Waith. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r llywodraeth ac yn darparu help wedi'i deilwra i baratoi ar gyfer a dod o hyd i waith.

Mae'n bosibl y gall y Ganolfan Byd Gwaith drefnu treial gwaith i chi. Bydd hyn yn eich galluogi i roi cynnig ar swydd i weld ai chi yw'r person cywir ar ei chyfer. Gall treialon gwaith bara am hyd at 30 diwrnod a bydd eich budd-daliadau yn parhau drwy'r cyfnod hwn. Os nad yw'r treial yn llwyddo, ac nad ydych yn cael cynnig swydd, ni fydd hyn yn effeithio ar eich budd-daliadau.

Chwilio am swydd newydd

Mae swyddi'n cael eu hysbysebu mewn nifer o leoedd, a dangosir rhai ohonynt gyferbyn.
Mae hefyd yn werth cysylltu â chyflogwyr yn uniongyrchol, oherwydd nid yw cwmnïau bob amser yn hysbysebu eu swyddi gwag – sy'n golygu y bydd llai o bobl yn gwybod am swyddi gwag ac felly bydd llai o gystadleuaeth ar gyfer y swydd.

Chwiliwch am swydd newydd

Lle?	Beth maent yn ei gynnig
Y Ganolfan Byd Gwaith (Paru Swyddi Ar-lein) a'r Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau (Jobcentre Online NI)	■ Y rhain yw cronfeydd data swyddi gwag mwyaf yn y DU. ■ Gallwch gael gwybodaeth am swyddi ar y rhyngrwyd, dros y ffôn, neu ffôn testun os ydych yn drwm eich clyw neu os ydych yn cael anawsterau gyda'ch lleferydd. ■ Gallwch chwilio am swyddi yn Ewrop yn ogystal â'r DU.
Asiantaethau recriwtio	■ Ar gyfer asiantaethau yn eich ardal chi, edrychwch yn eich llyfr ffôn lleol neu cysylltwch â'r Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46. ■ Ar gyfer asiantaethau sy'n cwmpasu mathau penodol o swyddi, edrychwch yn y cyfeirlyfrau busnes a'r rhyngrwyd.
Y rhyngrwyd	■ Mae nifer o gyflogwyr a phapurau newydd yn hysbysebu swyddi ar eu gwefannau. ■ Mae yna asiantaethau cyflogaeth ar-lein hefyd yn ogystal â gwefannau asiantaeth recriwtio leol. ■ Defnyddiwch y rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus os nad oes gennych fynediad eich hun i'r rhyngrwyd.
Papurau newydd	■ Mae nifer o bapurau newydd lleol yn hysbysebu swyddi ac mae papurau newydd cenedlaethol yn aml yn hysbysebu gwahanol fathau o swyddi ar ddyddiau gwahanol . ■ Dylai eich siop bapur newydd neu lyfrgell gyhoeddus allu dweud wrthych am hyn ac unrhyw gyfnodolion masnach arbenigol sy'n hysbysebu swyddi y gallai fod gennych ddiddordeb ynddynt.
Cyfnodolion proffesiynol a masnach	■ Os ydych yn chwilio am waith mewn maes penodol, edrychwch i weld a oes cyfnodolyn ar gyfer y math hwnnw o waith – dylai eich llyfrgell gyhoeddus wybod hyn. Mae'r cyfnodolion hyn yn aml yn cynnwys hysbysebion swyddi.
Ffenestri siopau	■ Mae siopau, busnesau ac archfarchnadoedd lleol yn aml yn gosod cerdyn yn eu ffenestr neu ar hysbysfwrdd y tu mewn.

Lle?	Beth maent yn ei gynnig
Cysylltiadau gwaith	■ Peidiwch â theimlo cywilydd yn sôn wrth bobl eich bod yn chwilio am swydd newydd. Gofynnwch iddynt a ydynt yn gwybod am unrhyw swyddi posibl a allai fod yn addas i chi, yn eu cwmni hwy neu gwmni arall.
Ffrindiau a theulu	■ Efallai y byddant yn clywed am gyfleoedd swyddi, o bosibl yn eu cwmni eu hunain, ac efallai y gallant roi gair da ar eich rhan.

Ysgrifennu CV effeithiol

Eich CV yw eich porth i gael cyfweliadau. Mae'n bwysig iawn bod eich CV yn tynnu sylw'r sawl sy'n recriwtio a'i fod yn rhoi'r wybodaeth maent yn chwilio amdani.

- Defnyddiwch yr ysgrifennydd CV am ddim ar wefan y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.
- I gael help a chyngor am ddim ar ysgrifennu CV effeithiol, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith ar 0345 6060 234.

Gwella eich techneg cyfweliad

Mae cyfweliadau yn gwneud i'r rhan fwyaf o bobl deimlo'n nerfus. Ond gall gwaith paratoi da eich helpu i deimlo'n fwy hyderus a gall wella eich rhagolygon o gael swydd.

Fel rhan o'r broses colli swydd, mae'n bosibl y bydd eich cyn gyflogwr yn cynnig hyfforddiant cyfweliad ac, os ydych wedi ymuno ag asiantaeth recriwtio, byddant yn rhoi cyngor i chi. Mae canllawiau ar gael hefyd ar wefan y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Ystyriwch ailhyfforddi

Gall colli eich swydd fod yn gyfle i ail-asesu eich uchelgeisiau gwaith. Efallai y byddwch yn penderfynu diweddaru eich sgiliau neu ddysgu rhai newydd i wella eich rhagolygon o gael swydd neu i roi cyfleoedd gwaith newydd i chi.

Cyrsiau hyfforddiant
Mae yna gannoedd o gyrsiau hyfforddiant sy'n cael eu cynnal mewn colegau lleol a phreifat ar wahanol adegau. Mae'n rhaid i chi dalu am y rhan fwyaf o gyrsiau, ond os ydych yn ddi-waith efallai y byddant am ddim neu am bris gostyngol.

- Cysylltwch â cholegau lleol neu Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol (Lloegr), Skills Development Scotland neu Wasanaeth Gyrfaoedd Gogledd Iwerddon neu golegau lleol - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.
- Os oes diddordeb gennych mewn dysgu o bell, mae Learn Direct yn cynnig ystod eang o gyrsiau y gallwch eu gwneud ar eich cyflymder eich hun ar y rhyngrwyd, neu gallech ystyried cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan Y Brifysgol Agored – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Prentisiaethau
Fel prentis, byddwch yn ennill cyflog wrth gael eich hyfforddi a gallech ennill cymhwyster yn y pen draw. I gael manylion am gynlluniau prentisiaethau gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Dewisiadau eraill i hyfforddiant ffurfiol
Mae yna nifer o bethau eraill y gallwch eu gwneud i gael profiad buddiol, a all wneud i chi deimlo'n fwy hyderus a gwella eich rhagolygon o ddod o hyd i swydd. Gallai'r rhain gynnwys:

- cymryd gwaith rhan amser neu waith achlysurol
- cymryd rhan mewn grŵp cymunedol
- gwirfoddoli.

Fodd bynnag, dylech wneud yn siŵr i ddechrau a allai hyn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau yr ydych yn eu hawlio – cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith, neu y Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon, neu gynghorydd budd-daliadau – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Dechrau eich busnes eich hun

Gall gweithio i chi eich hun fod yn foddhaus iawn ac, mewn rhai achosion, yn broffidiol iawn hefyd. Mae'n gyfle i chi wneud rhywbeth sydd wir o ddiddordeb i chi mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'ch ffordd o fyw a'ch ymrwymiadau.

Fodd bynnag, mae busnesau newydd yn anwadal iawn ac mae nifer ohonynt yn methu. Nid ydych eisiau ymroi oriau o waith caled a buddsoddi llawer o arian, a bod y busnes yn methu yn y pen draw.

Yn ffodus, os ydych yn ystyried dechrau eich busnes eich hun, mae yna ddigon o help a chyngor ar gael i chi.

Gall y Ganolfan Byd Gwaith (Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon) ddweud wrthych am y cymorth ariannol sydd ar gael i helpu pobl ar fudd-daliadau i ddechrau busnes.

Ewch i wefan Cyllid a Thollau EM i gael canllaw ar sut i gofrestru busnes newydd er mwyn sicrhau eich bod yn cyflawni'r rheolau treth, a gwefan GOV.UK i gael cyngor ar bob agwedd ar ddechrau busnes.

Cofiwch

Mae'r neges yn syml – pan fyddwch yn sefydlu busnes, cynlluniwch, cynlluniwch, yna cynlluniwch ychydig mwy.

Cysylltiadau defnyddiol

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i helpu pobl wneud y mwyaf o'u harian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein, dros y ffôn ac yn wyneb yn wyneb.

Rydyn ni'n rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar ystod eang o themâu gan gynnwys rheoli arian o ddydd i ddydd, cynilion, cynllunio'ch ymddeoliad a'ch dyfodol, yn ogystal â rhoi cymorth a chyngor am ddigwyddiadau sy'n newid bywyd megis cychwyn teulu neu golli swydd.

Am gyngor a mynediad at ein hoffer a chynllunwyr, ewch i
moneyadviceservice.org.uk/cy

Neu ffoniwch linell y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar
0800 138 0555

Typetalk
1800 1 0800 915 4622

Problemau dyledion

Cyngor ar Bopeth
citizensadvice.org.uk/cymraeg/

Elusen Dyledion StepChange
0800 138 1111
stepchange.org

Llinell Ddyled Genedlaethol
0808 808 4000
nationaldebtline.org

Gwasanaeth Cynghori Ariannol yr Alban
0141 572 0237
moneyadvicescotland.org.uk

Debt Action Gogledd Iwerddon
028 9064 5919
adviceni.net/advice/debt

Dod o hyd i gynghorydd ariannol

Y Gymdeithas Cyllid Personol
Am gynghorwyr ariannol yn eich ardal.
thepfs.org

Dod o hyd i swydd

Y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth
020 7009 2100
rec.uk.com

Y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol
0800 100 900
nationalcareersservice.direct.gov.uk

Cyngor ar dai

Shelter (Lloegr a'r Alban)
0808 800 4444
shelter.org.uk

Shelter Cymru (Cymru)
0345 075 5005
sheltercymru.org.uk

Gwasanaeth Hawliau Tai (Gogledd Iwerddon)
028 9024 5640
housingadviceni.org

Cyngor ar Bopeth
citizensadvice.org.uk/cymraeg/

Canolfan Gwaith

Canolfan Byd Gwaith (Prydain Fawr)
0800 055 6688
gov.uk/contact-jobcentre-plus

Swyddi gwag: Paru Swyddi Ar-lein
gov.uk/jobsearch

Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu'r Swyddfa Nawdd Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon)

Chwilio am swyddi a budd-daliadau
nidirect.gov.uk

Swyddi gwag: Jobcentre Online NI
jobcentreonline.com

Awdurdod neu gyngor lleol

Cyngor lleol – i ganfod eich un chi
gov.uk/find-your-local-council

Pensiynau

Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau
0300 123 1047
pensionsadvisoryservice.org.uk

Dileu swydd

Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (Acas)
0300 123 1100
acas.org.uk

Cyngor ar Bopeth
citizensadvice.org.uk

Asiantaeth Cysylltiadau Gwaith (Gogledd Iwerddon)
028 9032 1442
lra.org.uk

Gwasanaeth Tribiwnlys Cyflogaeth
tribiwnlysoeddcyflogaeth.gov.uk

Ail hyfforddi

Cynlluniau prentisiaeth
Lloegr:
apprenticeships.org.uk

Cymru:
wales.gov.uk/apprenticeships

Yr Alban:
skillsdevelopmentscotland.co.uk/our-services/modern-apprenticeships/

Gogledd Iwerddon:
nidirect.gov.uk/apprenticeships

Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol
0800 100 900
nationalcareersservice.direct.gov.uk

Gyrfa Cymru
0800 028 4844
careerswales.com

Gwasanaeth Gyrfaoedd Gogledd Iwerddon
0300 200 7820
nidirect.gov.uk/careers

Learn Direct
0800 101 901
learndirect.com

Skills Development Scotland
0800 917 8000
skillsdevelopmentscotland.co.uk

Online Centres Network
ukonlinecentres.com

Learn My Way
learnmyway.com

Treth

Cyllid a Thollau EM
0300 200 3600
hmrc.gov.uk

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

the Money Advice Service

Y llawlyfr colli swydd
yw un o'r canllawiau sydd ar gael o'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol. I gael golwg ar ystod lawn ein canllawiau ac i fynnu gopi, ewch i

moneyadviceservice.org.uk/canllawiau-printiedig-am-ddim

Llinell Cyngor Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. Mae'n bosibl y byddwn yn recordio neu'n monitro galwadau, er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth.

Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2018). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

Ebrill 2018
© Gwasanaeth Cynghori Ariannol Ebrill 2018
Cyfeirnod: RH_Apr18_Edition1_Welsh